COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 20 MEHEFIN 2019, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | NA Burnett | RJ Collins | SK Dendy |
| DK Edwards | RM Granville | DG Owen | JC Radcliffe |
| JC Spanswick | RME Stirman | KJ Watts | CA Webster |
| AJ Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn, DRW Lewis, JE Lewis a/ac MC Voisey

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Ingrid Iekaj | Cyfreithiwr Dan Hyforddiant |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Peter Remedios | Senior Regeneration Officer |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

264. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-

Cynghorydd MJ Kearn
Cynghorydd DRW Lewis
Cynghorydd JE Lewis
Cynghorydd MC Voisey

265. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd yr Uwch Swyddog Rheoli Datblygiadau, Leigh Tuck, fuddiant rhagfarnus yn eitem 8 yr Agenda gan iddo breswylio yn y stryd dan sylw a gŵyr am wrthwynebydd i'r cais.

266. YMWELIADAU SAFLE

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cytuno ar y dyddiad hwnnw, sef dydd Mercher 31 Gorffennaf 2019 ar gyfer yr archwiliadau safle arfaethedig a drafodwyd yn y cyfarfod, neu a adnabuwyd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gan y Cadeirydd.

267. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau â'r dyddiad 9 Mai 2019 fel cofnod gwir a manwl gywir.

268. SIARADWYR CYHOEDDUS

| Rhif y Cais | Safle | Gwrthwynebydd | Ymgeisydd |
|---|---|---|---|
| P/19/166/FUL | Bryn y Môr Heol Broom Mawdlam | Cyng. JH Tildesley | Mr Robert Chichester C2J Architects |

269. TAFLEN DDIWYGIO

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor er mwyn cymryd i ystyriaeth sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen eu cynnwys.

270. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGIADAU

PENDERFYNWYD: Nodi'r crynodeb o Ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau a nodwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

271. P/18/635/FUL - Y TU ÔL I 23 NOTTAGE MEAD, PORTHCAWL

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:-

Cynnig

Codi annedd 4 gwely sengl.

272. P/19/166/FUL - BRYN Y MÔR, HEOL BROOM, MAWDLAM

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:-

Cynnig

Dymchwel yr annedd presennol ac adeiladu annedd i gymryd ei le.

273. P/19/256/FUL - 2 BRAGDY COTTAGES, COETY

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:-

Cynnig

Garej ddwbl sengl gyda llofft uwchben.

Yn unol â chynnwys yr Amod 3 canlynol.

'Dim ond at ddibenion domestig y dylid defnyddio'r garej ac nid at unrhyw ddiben arall o gwbl, gan gynnwys cynnal masnach neu fusnes.'

Rheswm: Diogelu cymeriad ac amwynder yr ardal.

274. BRIFF DATBLYGU CYNLLUNIO SAFLE SIOP FWYD I'R GOGLEDD O'R LLYN HALEN

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, adroddiad, er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried Briff Datblygu Cynllunio Safle Siop Fwyd, i'r Gogledd o'r Llyn Halen (sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) ac i gymeradwyo ei gynnwys fel deunydd i'w ystyried wrth benderfynu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol ar gyfer y safle.

Cynghorodd yr Uwch Swyddog Adfywio fod y Briff Cynllunio Datblygu yn ystyried y cynnwys ar gyfer ailddatblygu'r safle a chynigodd nifer o baramedrau datblygu ac egwyddorion dylunio, y gellid eu defnyddio i gyfeirio ailddatblygiad y safle.

Yna, rhoddodd paragraff 4.2 grynodeb o'r hyn yr oedd y ddogfen yn ei gynnwys, ar ffurf pwyntiau bwled.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau:

1. Yn cymeradwyo Briff Datblygu Cynllunio Safle Siop Fwyd i'r Gogledd o'r Llyn Halen, Porthcawl fel Canllawiau Rheoli Datblygiadau, i'w defnyddio fel deunydd i'w ystyried wrth benderfynu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol ar gyfer y safle.

2. Dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Grŵp, Cynllunio a Datblygu, i wneud unrhyw ddiwygiadau ffeithiol a/neu gartograffig angenrheidiol i'r ddogfen a all fod yn ofynnol cyn ei chyhoeddi'n ffurfiol.

275. ENWEBIADAU I BANEL YMWELIADAU SAFLE RHEOLI DATBLYGIADAU

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu tri Aelod i ffurfio ei Banel Ymweliadau Safle, i gynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd a thrydydd aelod, yn ogystal ag enwebu aelod wrth gefn i eistedd ar y Panel pe bai unrhyw un o'r tri Aelod Panel a enwebir ddim ar gael.

PENDERFYNWYD: Bod Panel Ymweliadau Safle'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau yn cynnwys yr aelodau canlynol:-

- Cadeirydd y Pwyllgor
- Is-gadeirydd y Pwyllgor
- Cynghorydd C Webster – Trydydd Aelod
- Cynghorydd DRW Lewis - Aelod wrth Gefn

276. ENWEBIADAU I'R IS-BWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau enwebu a phenodi Aelodau i'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy.

Mae cydbwysedd gwleidyddol yr Is-bwyllgor yn seiliedig ar y nifer o Aelodau sydd ganddo, fel a ganlyn:-

Llafur - 2 Aelod
Ceidwadwyr - 1 Aelod
Cynghrair/Annibynnol - 1 Aelod
Annibynwyr Llynfi - 1 Aelod
Plaid Cymru - 1 Aelod

Cynigwyd hefyd fod aelodaeth yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn penodi'r Aelodau canlynol i'r Pwyllgor Hawliau Tramwy:-

Cynghorydd G Thomas (Cadeirydd)
Cynghorydd RM Granville (Is-gadeirydd)
Cynghorydd C Webster
Cynghorydd S Dendy
Cynghorydd DK Edwards
Cynghorydd R Stirman

277. APELIADAU

PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r ddwy Apêl a nodwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, y derbyniwyd ers ei adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor.

Rhif y Cod Testun yr Apêl

C/19/3220905 (1850) Newid anawdurdodedig i ddefnydd o dir i ardal gardd ddomestig, 1 Blackfield Row, Cefn Cribwr.

(2) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu'r Apêl uchod wedi rhoi cyfarwyddiadau i gywiro'r Hysbysiad Gorfodi, CANIATÁU'R apêl a diddymu'r Hysbysiad Gorfodi (Gweler Atodiad A i'r adroddiad)

Rhif y Cod Testun yr Apêl

A/19/3220903 (1851) Cynnwys tir i'r gogledd o'r eiddo presennol o fewn y cwrtil domestig, 1 Blackfield Row, Cefn Cribwr.

(3) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu'r Apêl uchod wedi rhoi cyfarwyddiadau i GANIATÁU'R Apêl (Gweler Atodiad A i'r adroddiad)

Rhif y Cod Testun yr Apêl

A/19/3221703 (1853) Amlinellu cais am 3 annedd, tir oddi ar Ffordd Convil, Blaengarw.

(4) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu'r Apêl uchod wedi rhoi cyfarwyddiadau i WRTHOD yr Apêl (Gweler Atodiad B i'r adroddiad).

A/19/3221795 (1854) Trawsnewid y becws segur presennol i annedd un gwely, hen Fecws, y tu ôl i 77 Stryd Nolton, Pen-y-bont ar Ogwr.

(5) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu'r apêl uchod wedi rhoi cyfarwyddiadau i WRTHOD yr Apêl (Gweler Atodiad C i'r adroddiad).

278. COFNOD HYFFORDDIANT

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau gyflwyno adroddiad a oedd yn amlinellu dyddiadau'r sesiynau hyfforddiant i ddod ar gyfer aelodau fel rhan o Gofnod Hyfforddiant y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

279. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:47